**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-07-02(p.7)**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 13 Mawrth 2002
**Lleoliad:** Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Oedolion: Creu System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal

## Diben

1. Diben y papur hwn yw hysbysu'r Pwyllgor bod y Canllawiau i Gyrff Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y System Unedig a Theg ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal, yn cael eu cyflwyno o 1 Ebrill 2002 ymlaen.

## Gweithredu

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r papur hwn. Mae copi o'r Canllawiau llawn ar gael yn y llyfrgell.

## Cefndir

3. Amlinellwyd yn Gwella Iechyd yng Nghymru - Cynllun i'r GIG ynghyd â'i bartneriaid, yr ymrwymiad i ddatblygu, erbyn mis Ebrill 2002, system unedig ar gyfer asesu a rheoli gofal i bobl a chanddynt anghenion cymhleth o ran iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig pobl hyn. Mae'r Canllawiau sydd ar y gweill yn sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn cael ei gyflawni. Mae hefyd yn cyrraedd y targedau a bennwyd yn Adeiladu ar gyfer y Dyfodol ac yn diweddaru ac yn atgyfnerthu'r Canllawiau gan y Swyddfa Gymreig Rheoli Gofal, Ebrill 1991. Mae'r broses Asesu Unedig hefyd yn allweddol i ddarparu Gofal Nyrsio a Ariennir gan GIG mewn cartrefi gofal.

4. Lluniwyd y Canllawiau Terfynol o ganlyniad i:

- gasgliadau Grwp Cyfeirio aml-asiantaeth i Cymru Gyfan, a gadeiriwyd gan Jon Skone, Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol a Thai, Sir Benfro. Canolbwyntiodd y gwaith hwn ar y ffordd y dylai'r system unedig ar gyfer asesu a rheoli gofal gael ei gweithredu yng Nghymru;

- cyfraniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yng Ngrwp Gwaith Cenedlaethol yr Adran Iechyd ar Asesu, a sefydlwyd i roi cyngor ar y Broses Asesu Sengl;

- gwaith Age Alliance a gyflwynodd ei gasgliadau ei hun ac a geisiodd farn pobl hyn a'u gofalwyr yng Nghymru ar y Broses Asesu Unedig ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru;

- ymatebion ysgrifenedig i'r papur ymgynghori drafft a chyfraniadau a gafwyd mewn gweithdy Cymru Gyfan ar gyfer asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol ym mis Rhagfyr 2001.

5. Caiff y Canllawiau eu cyhoeddi o dan adran 7(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ac yn ganllawiau ar gyfer cyrff iechyd. Cyfrifoldeb y ddwy asiantaeth yw sicrhau bod asiantaethau'n cydweithio'n effeithiol er mwyn cydymffurfio â'r Canllawiau. Mae'r Canllawiau yn rhan o ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hyn.

**Prif Nodweddion y Canllawiau**

6. Mae'r unigolion sydd angen cymorth yn cael eu hasesu gan amryw staff iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithdrefnau asesu unedig yn cynnig ffordd gyfannol o ymgymryd â'r asesu sydd o fudd i'r pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol. Y nod wrth ddatblygu gweithdrefnau asesu unedig yw sicrhau cydweithio mwy effeithiol a sicrhau nad yw pobl yn cael eu hasesu fwy nag unwaith nac yn cael eu holi am yr un wybodaeth gan asiantaethau gwahanol. Hefyd, rhaid bod lefelau'r asesu yn cyfateb i anghenion yr unigolyn.

7. Un o'r egwyddorion allweddol sydd wrth wraidd y Canllawiau yw y dylai'r asesu ganolbwyntio ar yr unigolyn bob amser, gan sicrhau bod sylwadau a dymuniadau'r unigolyn yn llywio'r broses asesu. Rhaid i'r Asiantaethau sicrhau bod eu proses yn nodi presenoldeb gofalwyr hefyd a'u gofynion o ran asesu.

8. Mae'r broses asesu unedig, a fydd yn cael ei llunio ar gyfer pobl hyn i ddechrau (gweler Atodiad 2), yn nodi model ar gyfer y gwahanol fathau o asesu a'r anghenion gwahanol y dylai'r asiantaethau gyfeirio atynt wrth gwblhau asesiad. Bydd y Meysydd Asesu hyn yn sicrhau bod mwy o gysondeb yn y ffordd y cynhelir yr asesiadau ledled Cymru ac yn arwain at welliant yn ansawdd yr asesiadau.

9. Mae'r Canllawiau yn darparu **fframwaith** hefyd ar gyfer pennu pwy sy'n gymwys ar gyfer y **gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion**. Dylai'r fframwaith arwain at wasanaethau gofal yng Nghymru sydd ar gael i bawb yn ddiwahân, ac yn lleol dylai pobl mewn amgylchiadau tebyg allu derbyn gwasanaeth sy'n cael canlyniadau tebyg. Mae'r Canllawiau hefyd yn cynnig pwynt cychwyn ar gyfer llunio meini prawf unedig ar gymhwysedd i becynnau iechyd a gofal cymdeithasol parhaus. Bwriedir llunio mwy o ganllawiau diwygiedig ar ofal parhaus er mwyn cynorthwyo â'r broses hon.

10. Mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol adolygu a diwygio eu meini prawf ar gyfer cymhwysedd a'u trefniadau perthnasol drwy ymgynghori â phartneriaid iechyd. O fis Hydref 2002, dylent fod yn defnyddio meini prawf diwygiedig ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion a dylent fod yn cychwyn adolygu achosion, yn unol â'r Canllawiau. Erbyn mis Hydref 2003, dylai'r adolygiadau o anghenion defnyddwyr y gwasanaethau ers dechrau mis Hydref 2002 fod wedi'u cwblhau.

11. Mae'r Canllawiau yn pwysleisio y dylid gwneud penderfyniadau ynghylch y math o wasanaeth fydd yn cael ei ddarparu a faint sydd ei angen ar ôl pennu a yw unigolyn yn gymwys ar gyfer cymorth ac nid cyn hynny. Rhaid i'r asiantaethau fabwysiadu ffordd o fynd ati i gynllunio gofal a darparu cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn hyrwyddo annibyniaeth a'r canlyniadau a'r amcanion sydd angen eu cyflawni drwy ddarparu gwasanaethau.

12. Mae'r canllawiau yn pwysleisio y dylai pobl gael gwybod am y camau a gymerir yn y broses o'u hasesu trwy gydol eu cysylltiad â'r asiantaethau a'u bod hefyd yn cymryd rhan yn y trafodaethau ynghylch yr asesiad a'r cymorth sydd ar gael. Argymhellir mai'r ffordd orau o wneud hyn yw dynodi un aelod o staff fel cydlynydd gofal, sydd hefyd yn gallu cynnig cymorth parhaus i ddefnyddwyr y gwasanaethau a'u gofalwyr.

13. Bydd y gwasanaethau priodol yn cael eu cydweddu i anghenion yr unigolyn trwy'r 'Datganiadau o Fwriad' a roddir gan ddarparwyr y gwasanaethau. Bydd y rhain yn sôn am y nodau, yr amcanion, yr athroniaeth gofal, y gwasanaethau a chyfleusterau eraill, a'r mathau o bobl y lluniwyd y gwasanaeth ar eu cyfer.

14. Mae'r Canllawiau yn datgan bod yn rhaid llunio cynlluniau gofal personol, lle bo hynny'n bosibl, â gytunir â defnyddwyr y gwasanaethau, . Dylai'r asiantaethau roi copi o'r cynllun i ddefnyddwyr y gwasanaethau a sicrhau y caiff ei egluro'n llawn i'r defnyddiwr a phobl eraill berthnasol, gan gynnwys gofalwyr.

15. Nodir yn y Canllawiau hefyd y safonau gofynnol ar gyfer adolygiadau. Dylai'r adolygiadau bennu i ba raddau y mae'r gwasanaethau a ddarperir wedi cyflawni'r hyn a nodwyd yn y cynllun gofal personol. Mae angen ailasesu anghenion defnyddwyr unigol y gwasanaethau a'u gofalwyr ac ystyried a ydynt yn dal i fod yn gymwys ar gyfer cymorth. Mae'r adolygiadau'n gyfle i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir hefyd.

16.Y camau gweithredu yw'r amserlenni cysylltiedig a bennir ar gyfer y system unedig ar gyfer asesu a rheoli gofal, a geir yn Atodiad 1 a 2.

17. Mae'n ofynnol i'r asiantaethau adrodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y camau a gymerir ganddynt mewn perthynas â'r System Unedig ar gyfer Asesu a Rheoli Gofal erbyn 30 Medi 2002, ac yn flynyddol wedi hynny yn y cynlluniau gofynnol ar gyfer asiantaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Cyswllt:** Steve Milsom, yr Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, est 3206.